# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**John Griffiths AC**
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

24 Hydref 2012

Annwyl John

**Gorchymyn drafft Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012**

Diolch am ddarparu fersiwn gynnar o'r Gorchymyn drafft Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) (y Gorchymyn Swyddogaethau drafft) i'r Pwyllgor. Ystyriwyd y Gorchymyn Swyddogaethau drafft gennym yn ein cyfarfod ar 10 Hydref 2012.

Yng nghyd-destun y cyfyngiadau a osodwyd gan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, rydym yn fodlon yn gyffredinol â darpariaethau'r Gorchymyn Swyddogaethau drafft. Fel y crybwyllwyd gennym eisoes, rydym wedi ei chael hi'n anodd dirnad eich gweledigaeth yn llwyr ar gyfer y corff newydd o'r offerynnau hyn yn unig, gan na fydd rhai elfennau o'i sylfeini deddfwriaethol yn cael eu nodi nes y byddwn yn edrych ar rai o'ch Biliau sydd i ddod. Byddai unrhyw arwydd o beth y byddech am ei gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth ddilynol yn ein cynorthwyo wrth i ni ystyried y Gorchymyn Swyddogaethau drafft, a gallai leddfu ar rai o bryderon parhaus rhanddeiliaid.

Byddwch yn ymwybodol fod yn rhaid i ni yn awr gynllunio ein gwaith o graffu ar y Gorchymyn Swyddogaethau drafft yn y dyfodol, unwaith y bydd wedi'i osod gerbron y Cynulliad ym mis Tachwedd. Bwriadwn wahodd rhanddeiliaid i roi tystiolaeth lafar cyn ein sesiwn gyda chi ar 28 Tachwedd. Er mwyn ein cynorthwyo yn ein gwaith o gynllunio, byddem yn ddiolchgar iawn o gael syniad cynnar o'r dyddiad rydych yn bwriadu gosod y Gorchymyn Swyddogaethau drafft. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i gael gweld yr ymatebion a gawsoch i'r ymgynghoriad, cyn gynted ag y gallwch eu cyhoeddi.

Cyn gosod y Gorchymyn Swyddogaethau drafft yn ffurfiol, credwn fod angen rhywfaint o eglurhad pellach mewn rhai mannau, ac amlinellir y rhain isod. Mae'r paragraffau wedi'u rhifo er hwylustod i chi.

**1. Dyletswyddau gwarchod natur**

1.1 Nodwn fod y Gorchymyn Swyddogaethau drafft yn ceisio ychwanegu erthygl ychwanegol at y Gorchymyn Sefydlu cyntaf mewn perthynas â dyletswyddau gwarchod natur. Deallwn fod yn rhaid dod o hyd i lwybr rhwng

Bae Caerdydd | Cardiff Bay
Caerdydd | Cardiff
CF99 1NA
Ffôn | Tel: 029 2089 8709/8639
E-bost | Email:dafydd.elis-thomas@cymru.gov.uk
alun.davidson@cymru.gov.uk

dyletswyddau'r cyrff presennol o fewn cyfyngiadau Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 a dyna y mae'r gwelliant hwn a gwelliannau eraill yn ceisio ei gyflawni.

1.2 Mae rhanddeiliaid wedi nodi'u pryderon gyda ni bod y dyletswyddau, fel y'u cynigir ar hyn o bryd, yn wannach na'r rhai sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, a'u bod felly yn dileu'r 'diogelwch angenrheidiol' ar gyfer yr amgylchedd naturiol.

1.3 Gofynnwn i chi ystyried y pryderon hyn cyn cyflwyno'r Gorchymyn Swyddogaethau drafft ym mis Tachwedd.

**2. Hunan-drwyddedu ac ymgynghori mewnol**

2.1 Byddwch yn ymwybodol o'n gwaith cynharach y bu gennym bryderon ers tro ynghylch sut y bydd prosesau hunan-drwyddedu ac ymgynghori mewnol yn cael eu gwahanu o fewn y Corff Adnoddau Naturiol ('y Corff'). Rydych wedi rhoi sicrwydd i ni yn y gorffennol y bydd tryloywder a gwahanu swyddogaethau'n fewnol yn caniatáu i'r prosesau hyn gael eu cwblhau heb unrhyw wrthdaro buddiannau.

2.2 Rydym yn cydnabod nad oes angen i'r trefniadau hyn gael eu nodi yn y gyfraith. Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai nodi sut y byddai sefydlu'r trefniadau hyn yn gynnar yn rhoi sicrwydd mawr i randdeiliaid pryderus. Credwn ei bod yn rhesymol disgwyl rhagor o fanylion yn hyn o beth i gyd-fynd â'r Gorchymyn Swyddogaethau drafft ym mis Tachwedd. Er enghraifft, hoffem wybod ai'r Corff fydd yn penderfynu ar y trefniadau hyn neu a fydd y Corff yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd gan y Gweinidog wrth wneud y trefniadau hyn, a byddai cael amlinelliad o sut y bydd y trefniadau hyn yn gweithio'n ymarferol yn ddefnyddiol.

**3. Tryloywder ac atebolrwydd**

3.1 O ran sicrhau tryloywder ac atebolrwydd yn y dasg o wneud penderfyniadau, mae'r Gorchymyn Swyddogaethau drafft yn gosod dyletswydd ar y Corff i ddatblygu, mabwysiadau a chynnal cynllun cyhoeddi. Er bod hyn yn darparu dull ar gyfer sicrhau tryloywder, bydd yr amseriad ar gyfer datgelu gwybodaeth o dan y cynllun yn hanfodol o ran caniatáu digon o atebolrwydd cyhoeddus, yn arbennig mewn achosion pan fydd y Corff yn hunan-drwyddedu. Er y deallwn mai'r Corff fydd yn datblygu'r cynllun, gofynnwn i chi ystyried amlinellu eich disgwyliadau o ran amseriad cyhoeddi gwybodaeth. Disgwyliwn y bydd Gweinidogion Cymru'n sicrhau y bydd y cynllun yn nodi amserlen a threfn ar gyfer y broses, a fydd yn sicrhau natur agored a thryloyw hyd at lefel sydd o leiaf yn cyfateb i'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd mewn perthynas â'r cyrff unigol.

**4. Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000**

4.1 Deallwn mai diben ceisio gwneud gwelliannau i *Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000* ('RIPA') yw trosglwyddo pwerau sydd wedi'u breinio yn Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn o bryd, i'r Corff. O ran trosglwyddo'r pwerau hyn, rydym yn pryderu rhywfaint y bydd cylch gwaith ehangach y Corff yn golygu defnyddio pwerau RIPA yn ehangach o bosibl.


4.2 Gofynnwn i chi ddarparu rhagor o wybodaeth am gwmpas y pwerau sy'n cael eu trosglwyddo a sut rydych am i'r pwerau gael eu rheoli. Er enghraifft, a

fyddech yn disgwyl i'r Corff gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch gwelliannau i godau ymarfer er mwyn adlewyrchu rôl y Corff a'i strwythur rheoli, a fydd Gweinidogion Cymru'n cyflwyno sylwadau, ac a ydych yn ystyried cynnig unrhyw gyfarwyddiadau i'r Corff yn y maes hwn?

4.3 Rydym o'r farn y dylid rhoi eglurhad ar hyn ochr yn ochr â chyflwyno'r Gorchymyn Swyddogaethau drafft ym mis Tachwedd.

Diolch am eich cymorth parhaus â'n gwaith. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb. Efallai y byddwch am nodi y cyhoeddir y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



**Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd